

Safonau ar gyfer hyfforddiant diogelu

Canllawiau ar gyfer comisiynwyr

Cyflenwir y canllawiau hyn i gefnogi comisiynwyr (rhai sy'n comisiynu neu benodi hyfforddwyr i ddarparu hyfforddiant diogelu, am dâl, i'r gweithlu plant ac oedolion mewn perygl yng Nghymru) i ymgysylltu â hyfforddwyr effeithiol a phriodol.

Dylai unigolion sy'n bwriadu bod yn ddarparwyr hyfforddiant diogelu (neu unrhyw bynciau penodol o fewn cylch gwaith ehangach diogelu e.e. Atal), a chomisiynwyr hyfforddwyr mewnol, neu rai sy'n darparu hyfforddiant diogelu fel rhan o swydd ehangach, geisio anelu at gyflawni'r canllawiau hyn.

Mae diogelu yn bwnc penodol a beichus iawn i'w ddarparu. Er mwyn sicrhau cymhwysedd y gweithlu sy'n diogelu eraill, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu hyfforddi gan bobl â sensitifrwydd, gwybodaeth a hygredd digonol.

SAFONAU

Safon 1

Darperir pob hyfforddiant gan diwtoriaid profiadol priodol, sydd â gwybodaeth ymarferol eang am ddiogelu o gefndir perthnasol (e.e. gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol, addysg gwaith ieuencid, yr heddlu...).

Safon 2

Mae pob hyfforddiant diogelu yn gysylltiedig â gweithdrefnau rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer Cymru sy'n esblygu. Mae'n rhaid i hyfforddwyr ddangos bod ganddynt ddealltwriaeth o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn arbennig rhan 7 (Diogelu).

Safon 3

Mae gan yr hyfforddiant nodau ac amcanion clir ac mae'n cyflawni canlyniadau dysgu a gytunwyd – ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar ymarfer dysgwyr.

Safon 4

Mae'r cwrs yn seiliedig ar ymchwil presennol a thystiolaeth ac mae'n cynnwys gwersi a ddysgwyd o Adolygiadau Ymarfer Plant / Oedolion, polisïau lleol a chenedlaethol a datblygu ymarfer.

Safon 5

Mae'r deunyddiau hyfforddi yn glir, cywir, perthnasol a chyfredol. Maent ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Safon 6

Caiff yr hyfforddiant ei ddarparu gan hyfforddwyr sydd wedi cwblhau rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwyr, cymhwyster proffesiynol cyfatebol (neu profiad o hyfforddiant perthnasol) neu maent yn ymroddedig i gwblhau cymwysterau o'r fath.

Safon 7

Darperir hyfforddiant mewn amgylchedd sy'n ffafriol i ddysgu ac sy'n hygyrch, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff priodol yn cael cyfle i fynychu.

Safon 8

Mae pob hyfforddiant yn creu ethos sy'n gwerthfawrogi cydweithio ag eraill, parchu amrywiaeth, cadw at safonau'r Gymraeg, hil, crefydd ac anabled ac maent yn hyrwyddo cydraddoldeb.

Safon 9

Caiff pob hyfforddiant ei werthuso i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal a'i fod yn gwella ymarfer yn y tymor hir a'r tymor byr.

Safon 10

Mae'r holl hyfforddiant yn gosod y plentyn/oedolyn yn y canol ac yn hyrwyddo pa mor bwysig yw deall profiad bywyd dyddiol y plentyn/oedolyn.

Safon 11

Mae pob hyfforddiant yn annog dadl iach a her briodol, ac mae'n gefnogol i ddysgu cyfoedion.

Safon 12

Mae pob hyfforddiant yn cynnig cyfle i ddysgwyr ddatgelu pryderon, cael cefnogaeth â materion sensitif a chael eu cyfeirio'n briodol at wasanaethau. Dylai cyfrinachedd priodol gael ei esbonio a'i gynnal.

Dylai'r comisiynydd hyfforddiant ystyried pa dystiolaeth y gellid ei chyflwyno i gefnogi pob un o'r safonau. Efallai y bydd angen darparu rhai cyn cyflwyno'r hyfforddiant, ac eraill wedyn. Er enghraifft, dylai safonau 3, 4, 5, 8 a 9 ymddangos fel gofynion mewn unrhyw broses dendro neu gomisiynu.

Gallai tystiolaeth/cymwysterau'r hyfforddwr ateb safonau 1 2, 6, 10, 11 ac 12. Gallai'r rheiny gynnwys tystysgrifau hyfforddiant, CV, geirdaon, gwerthusiadau blaenorol o gyrsiau ac ati. Byddai'n help pe baent yn a) darparu sampl o'u deunyddiau hyfforddi eu hunain neu ddisgrifio sut y maent yn defnyddio adnoddau dysgu cydnabyddedig; a b) arddangos eu dealltwriaeth o sut mae'r cyrsiau diogelu y maent yn eu darparu yn berthnasol i'r darlun mawr, e.e. Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Dylid gofyn i'r hyfforddwr sut mae'n bwriadu gwerthuso'r dysgu sy'n digwydd yn ystod y cwrs, profiad y dysgwyr o'r cwrs, a sut y gellid gwerthuso effaith y dysgu ar ymarfer yn y tymor hirach. Byddai disgwyl i'r hyfforddwr rannu gyda'r comisiynydd unrhyw broblemau neu gwestiynau a godir yn yr hyfforddiant y bydd angen i'r corff comisiynu fynd i'r afael â nhw o bosibl.

Efallai y bydd y comisiynydd yn dymuno galw heibio neu arsylwi ar ran o'r hyfforddiant a gyflwynir neu'r cyfan ohono, yn bersonol neu trwy ddirprwy, ac annog adborth uniongyrchol gan y dysgwyr.

Efallai y bydd y comisiynydd yn defnyddio'r adborth a'r gwerthusiadau i ystyried defnyddio'r un hyfforddwr i ddarparu hyfforddiant yn y maes hwn yn y dyfodol.

Bydd disgwyl i'r hyfforddwr drin gwybodaeth bersonol pob dysgwr â pharch ac yn unol â GDPR.